OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 615 (Cy.68)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *7 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(2), 6(3), 7(6) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad gwerth gorau o fewn ystyr "best value performance plan" yn adran 6(1) o'r Ddeddf; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1999.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r rhai a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o'r Ddeddf.

### Y dyddiad ar gyfer cyhoeddi cynlluniau gwella

**2.** Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gyhoeddi eu cynllun gwella am flwyddyn ariannol erbyn 31 Hydref o'r flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

### Y dyddiad ar gyfer anfon copïau o adroddiadau archwilwyr

**3.** Rhaid i gopïau o adroddiad archwilydd ynghylch cynllun gwella gael ei anfon yn unol ag adran 7(5) o'r Ddeddf erbyn 30 Tachwedd o'r flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

### Dirymu

**4.** Dirymir y gorchmynion canlynol—

(**1**) 1999 p.27.

(a) Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002(**2**); a

(b) Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) (Diwygio) 2004(**3**).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*

7 Mawrth 2006 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) O.S. 2002/886 (Cy. 101).

(**3**) O.S. 2004/1575 (Cy. 161).

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill i gynnal adolygiadau gwerth gorau o'u swyddogaethau ac i lunio cynllun perfformiad gwerth gorau (a elwir "cynllun gwella" yn y Gorchymyn hwn) ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i gynllun gwella awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol gael ei gyhoeddi a'r dyddiad erbyn pryd y mae copïau o adroddiad archwilydd ynglŷn â'r cynllun i'w hanfon i'r awdurdod, at Archwilydd Cyffredinol Cymru ac, os bydd angen, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dadansoddiadau Awdurdodau Cyfan a Chynlluniau Gwella) (Cymru) 2002 ac nid yw'n gwneud unrhyw ddarpariaeth yn ei le ynghylch y cyfnod y dylai awdurdod gwerth gorau adolygu pob un o'i swyddogaethau ynddo.